# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod 05/08/2025

Presennol: Heulwen Parry, Rebecca Phasey, Meredydd Williams, Gareth Jones, Eurwyn Jones, Elfed Roberts

1. Ymddiheuriadau: Francesca Williams, Eirian Hoyle

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir: RP,ER

2a. Datgan Diddordeb: Dim

<u>3. Materion yn codi o'r cofnodion</u>

3.649 _Cae Chwarae Gellilydan- clerc i ail-gysylltu a Steffan Jones.

3.650 Tir ger Gors Fach / Coed Gors Fach – Ffens i'w wneud yn ddiogel ac ar y rhestr gwaith. Cynnig mewn egwyddor i'w gymeryd drosodd, angen trafod ymhellach gyda Grŵp Cynefin. ER i anfon cynllun ymlaen i'r clerc.

3.651 Safleoedd Bysiau Maentwrog – Elfed Roberts i drefnu cyfarfod safle gyda Gerwyn Jones, hefyd i drafod rhoi llinellau melyn yno.

3.653 Hyfforddiant: Hyfforddiant wyned yn wyneb wedi ei drefnu ar gyfer y 9fed o Fedi.

3.654 Archwiliad Allianz – Clerc wedi cysylltu a'r cwmni 'Sovereign', disgwyl ymateb.

3.655 Van wedi ei barcio wrth yr hên bost - yn dilyn ymateb Cyngor Gwynedd, clerc i gysylltu ac Iwan Jones o'r Heddlu.

3.656 Gof Golofn – Arwydd newydd wedi cyrraedd, Eurwyn Jones am ei osod.

3.657 Sedd Wâg - yn dilyn yr hysbysiad, ni ddangoswyd unrhyw diddordeb. Clerc i ofyn wrth Eirian Hoyle am roi hysbyseb yn y Llafar Bro.

3.658 Hysbysfyrddau: Clerc i ail gysylltu ac Emma i ofyn pryd fydd y gwaith yn cael ei wneud.

3.659 Cae chwarae Maentwrog – cysylltu ac Allianz I ddweud bod y cael chwarae wedi ei ail-agor.

3.660 Archwilydd Mewnol – Clerc wedi drafftio asesiad risg er mwyn ei ddefnyddio o hyn mlaen yn dilyn arweiniad gan yr archwilydd mewnol. Asesiad wedi ei wneud gan Heulwen Parry gyda lluniau wedi eu hafnon ymlaen at y clerc.

<u>4.Materion i'w Trafod:</u>

4.276 Derbyn cwynion gan y cyhoedd – cytunwyd bod cwynion ar lafar yn dderbyniol.

4.277 Clerc i gysylltu a Swyddog Diogelwch Ffyrdd i asesu y ffordd o'r maes carafanau fyny at ffordd Nant y March.

4.278 Clerc i gysylltu ac Owain Aeron i dorri gwair cae chwarae Maentwrog, hefyd i drin Llwybrau 1 ac 30 yn dilyn cwyn a dderbyniwyd gan Gwyn Evans o Gyngor Gwynedd.

H Parry 16/09/25

4.279 Hen Bôst, Gellilydan – Clerc i gysylltu ac Adrian Williams i drefnu cael torri y tyfiant er mwyn cadw y palmant yn glir, hefyd y ffordd o Nant y March at Penglannau angen sylw.

4.280 Cyfarfod Un Llais – Adroddiad wedi ei dderbyn gan Heulwen Parry:

***<u>Cyfarfod Un Llais Meirionnydd ym Mhenrhyndeudraeth Gorffennaf 16eg</u>***

***Cyflwyniad – Katherine Brown, Swyddog Datblygu Un Llais Gogledd Cynru***

***Prif nôd y cyflwyniad oedd cyflwyno safle we newydd Un Llais ac anogaeth i ni'r cynghorwyr wneud llawer mwy o ddefnydd ohoni. Mae cymaint o wybodaeth i'w gael ar y safle am bob agwedd o gyfrifoldebau Cynghorwyr a Chlercod y Cynghorau.***

***Roedd cryn feirniadaeth ar y Cynghorau am beidio mynychu cyfarfodydd a chyrsiau hyfforddiant Un Llais.***

***Mae mwy o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael eleni a gobeithir y bydd Cynghorwyr yn eu defnyddio. Yn y gorffennol, bu rhaid rhoi'r gorau i'r cyrsiau cyfrwng Cymraeg oherwydd diffyg diddordeb.***

***Gobeithir cael cynrychiolaeth dda yn y cyfarfod blynyddol yn Llanelwedd, Medi 3ydd. Bydd angen anfon enwau cynrychiolwyr i mewn ymlaen llaw.***

***Cafwyd trafodaeth am gwynion cyffredinol gan y Cynghorau am y pwysau afresymol roddir ar glercod wrth wneud yr awdit blynyddol. Bydd Katherine Brown yn cysylltu efo'r awdurdod i drafod y gŵyn.***

***Pwysleisiodd Katherine Brown am yr angen i bob Cynghorydd gael y côd i gael mynediad i fanylion eu cyngor yn Un Llais.***

***Pwysleisiodd hefyd y dylai fod gan bob clerc gyfeiriad ebost arbennig ar gyfer gwaith clercio'r Cyngor arwahan i'w cyfeiriad ebost personol.***

4.281 Raised Beds - Rebecca Phasey am holi y cyhoedd i weld os oes diddordeb o fewn y pentref i edrych ar eu hôl. Maen't yn llawn asgell ac angen eu trin.

4.282 Tir dros ffordd i Tan y Foel – clerc i gysylltu a Chyfoeth Naturiol Cymru i ofyn am ddiweddariad.

4.283 Clerc i wahodd Heledd Parri o Grŵp Cynefin i gyfarfod mis Medi.

<u>5. Ariannol</u>

5.201 Cyfrif Cadw: £228.15

5.202 Cyfrif Cyfredol: £4133.05

Cytunwyd i dalu y canlynol:

Defib Store - £78.00

H Parry 16/09/25

Derbyniwyd daliad o £460 gan Neuadd y Pentref (cais cynllunio).

6. Cynllunio

Dim gwrthwynebiad i'r cais canlynol:

6.766 NP5/73/T274A – Bull Street, Maentwrog – Gosod paneneli solar.

6.767 NP5/73/351C Llyn Mair, Tany Bwlch, Maentwrog – Adnewyddu a gosod system seiffon newydd.

6.768 NP5/73/22C – Neuadd y Pentref, Gellilydan – gosod paneli.

7. Gohebiaeth

279 Plas Tan y Bwlch – Sesiwn Galw Heibio Cyhoeddus

280 Un Llais – Innovate to Grow

281 National Grid – cyfarfod Gorffennaf

282 Un Llais – dyddiadau hyfforddiant

283 Fforwm Cymunedau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

284 Cyngor Gwynedd – Cronfa Cynghorau Tref/Cymuned

285 Ysgol Edmwnd Prys – llythyr o ddiolch,

8. Adroddiad o gyfarfodydd eraill

Dim newyddion.

9. Mynwent Dwyryd

9.74 Cyfrif y Fynwent: £22296.64

Cytunwyd i dalu y canlynol:

9.75 Richard Jones – £160.00

9.76 Elfed Roberts am drefnu cyfarfod arall gyda Mr a Mrs Rix – (cadw mlaen).

9.77 Lle parcio – Clerc wedi cysylltu gyda Don Westley ond dim ymateb. Elfed Roberts a Gareth Jones am gysylltu a Geraint Lewis i weld os yw'n gallu rhoi dyfynbris am y gwaith cynllunio er mwyn ei anfon mlaen i'r Parc am ganiatâd.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf

16eg o Fedi am 6.30 o'r gloch, Neuadd y Pentref, Gellilydan.

10. Neuadd y Pentref, Gellilydan.

Trafodaeth o ddilyn cyfarfod y cyngor gyda'r ymddiriedolwyr.